



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb i adolygiad thematig Estyn o
gynlluniau strategol Cymraeg mewn
addysg awdurdodau lleol**



ISBN digidol 978 1 4734 7590 8
© Hawlfraint y Goron Hydref2016
WG28054

Teitl yr Adroddiad:

Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg awdurdodau lleol – Medi 2016

Manylion yr adroddiad:

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn dymuniad y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, ar y pryd, y dylai Estyn ddarparu cyngor ynghylch y sefyllfa o ran Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar draws Awdurdodau Lleol Cymru.

Dyma'r adroddiad cyntaf a ddarparwyd gan Estyn ar gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Mae'r prif negeseuon a chanfyddiadau sy'n deillio o adroddiad Estyn ar y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cynnwys:

- Roedd llawer o'r CSGA cychwynnol angen addasiadau helaeth pan gyflwynwyd i'w cymeradwyo gan Weinidogion. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oeddynt wedi eu halinio'n ddigon da â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu cynlluniau strategol, yn arbennig mewn perthynas â gosod targedau, wedi bod yn wan. Nid yw'r targedau a bennwyd gan awdurdodau lleol wrth agregu yn cyd-fynd â llawer o ddyheadau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.
- Mewn rhai awdurdodau lleol, mae cyfarfodydd y fora yn cael eu cynnal yn rhy anfynd, mae rolau a chyfraniadau disgwylidig gan randdeiliaid yn aneglur, a chmau gweithredu arfaethedig heb eu nodi'n ddigon clir na'u gwerthuso'n ddigonol.
- Mae categoraiddio rhai ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn achosi rhywfaint o ddryswch ac efallai'n methu darparu y wybodaeth gywir i rieni.
- Mae amrywiaeth sylweddol o ran y pwyslais a roddir gan awdurdodau lleol i gynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cymryd pynciau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond lleiafrif o awdurdodau lleol sy'n gweld hyn fel blaenoriaeth.
- Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran datblygu CSGA mewn cyfnod cynnar iawn. Mae'r CSGA yn darparu fframwaith defnyddiol i hwyluso sgysiau rhwng swyddogion ac i hyrwyddo cydweithio o fewn a rhwng awdurdodau lleol.

Targedau:

Mae'r cynnydd yn erbyn y targedau yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn amrywio'n sylweddol ar draws y saith deilliant. Mae'r adroddiad yn amlygu'r amrywiadau hyn yn fanwl.

Argymhellion i Lywodraeth Cymru a'i hymateb iddynt:

Argymhelliad 1 – sicrhau bod y targedau y cytunwyd arnynt yn y CSGA yn adlewyrchu dyheadau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi a herio awdurdodau lleol i sefydlu targedau cadarn ond realistig i sicrhau bod cynlluniau ystyrlon a chyraeddadwy yn cael eu sefydlu.

Argymhelliad 2 – sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi digon o bwys strategol ar gyflawni'r targedau o fewn y CSGA.

Bydd monitro rheolaidd o'r targedau a sefydlwyd yn y CSGA yn allweddol i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Felly, rhaid i gamau gweithredu i gyflawni'r targedau gael eu monitro a'u hadolygu ar y lefel briodol yn rheolaidd.

Argymhelliad 3 – monitro gweithrediad y CSGA yn drylwyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal deialog rheolaidd gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod eu cynlluniau yn gadarn a bod camau yn cael eu gweithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth a chynghor lle y bo'n briodol ac yn angenrheidiol.

Argymhellion i awdurdodau lleol ac ymateb Llywodraeth Cymru:

Argymhelliad 1 sicrhau bod y CSGA yn flaenoriaeth strategol.

Argymhelliad 2 prosesau systematig ar waith i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 3 gweithio gydag ysgolion i egluro manteision i ddisgyblion a rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg a dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad 4 gweithio gydag ysgolion i osod targedau i gynyddu cyfran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n parhau i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf a meysydd pwnc penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad 5 gwneud defnydd effeithiol o'u fora addysg cyfrwng Cymraeg i helpu i ddatblygu eu CSGA ac i fonitro cynnydd; gwerthuso eu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg i nodi unrhyw fylchau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae holl awdurdodau lleol bellach wedi derbyn canllawiau diwygiedig wedi'i ddiweddarau ar gyfer eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020. Mae creu cysylltiadau cryfach a phartneriaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol bellach yn mynd rhagddo'n dda yn dilyn cyfarfodydd ar draws pob rhanbarth consortia i drafod sut yr ydym yn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd lleol a'u cymunedau yn creu'r newid er mwyn symud tuag at gynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y camau gweithredu hyn a'r rhai a nodir yng nghynlluniau'r awdurdod lleol, yn cyfrannu tuag at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd y fforymau addysg cyfrwng Cymraeg yn allweddol er mwyn gweithredu newidiadau drwy herio unrhyw gynigion a thargedau anuchelgeisiol. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau bod cynlluniau yn gyraeddadwy ac yn gwneud gwir wahaniaeth i'r iaith Gymraeg yn lleol ac yn rhanbarthol. Er nad yw sefydlu fforwm addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i hymgorffori mewn statud, bydd sicrhau cyfranogiad y prif chwaraewyr a hyrwyddo gwerth addysg Gymraeg yn fanteisiol i awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu eu cynlluniau. Lle nad yw hyn yn wir, mae angen sail resymegol dilys ynglŷn â pham nad yw hyn yn bosibl.

Bydd mesur yn ogystal â chreu y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn bwydo'n uniongyrchol i unrhyw gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi cyfalaf. I ateb unrhyw alw hysbys, bydd digon o gapasiti o fewn ysgolion yn darparu cwricwlwm Cymreig yn angenrheidiol neu yn gyfle i archwilio'r angen am ysgolion newydd. Dylid ystyried unrhyw anghenion a nodwyd o fewn y cyd-destun cynlluniau trefniadaeth ysgolion.

Mewn rhai achosion, mae darparu cyfleoedd i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld manylion ynghylch sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu gwneud hyn yn eu cynlluniau ar gyfer 2017-2020.

Yn ystod lansiad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth ddrafft: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, dywedodd y Gweinidog ar gyfer dysgu gydol oes a'r iaith Gymraeg yn glir y bydd yn gwrthod unrhyw gynllun nad yw'n ddigon uchelgeisiol neu sy'n methu dangos y lefel o ddyhead sy'n angenrheidiol i sicrhau twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Manylion cyhoeddi:

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 27 Medi 2016 a gellir ei weld ar wefan Estyn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-awdurdodau-lleol>